

**CYDRADDOLDEB
MENYWOD NAWR:
Y SEFYLLFA
YNG NGHYMURU
HEDDIW AR
= DLODI A THRAIS
ECONOMAIDD**





RHAGAIR

Sefydlwyd RhCM Cymru yn 2010 i gynrychioli a chefnogi sefydliadau niferus ac unigolion sy'n gweithio i ddatblygu hawliau menywod a hyrwyddo cydraddoldeb ledled Cymru. Ers hynny, rydym wedi ennill presenoldeb ar y llwyfan leol a byd-eang, gan ddarparu llais unedig ar faterion sy'n bwysig i fenywod a merched yng Nghymru.

Rydym ni'n dwy, fel pob menyw, wedi wynebu adfyd. Rydym wedi dod o hyd i'n llais personol ac wedi meithrin yr hyder i arwain y ffordd ar gyfer dyfodol holl fenywod Cymru y neid rôl fel Cyd-gadeiryddion. Ein gweledigaeth i fenywod a merched yng Nghymru yw cael llais ar faterion sy'n bwysig iddynt.

Er mwyn gwireddu hyn, rydym wedi comisiynu cyfres o friffiadau ymchwil sy'n tynnu sylw at faterion lle mae menywod yn teimlo yr effeithir arnynt fwyaf gan anghydraddoldeb. Mae'r ymchwil hwn yn rhoi cyfle am ddeialog uniongyrchol rhwng menywod a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru. Yn y bôn, mae'n tynnu sylw at faterion anghydraddoldeb sydd dal yn bodoli yng Nghymru heddiw, gan sicrhau y cant eu trafod er mwyn galluogi newid..

Rydym yn rhagweld y bydd y cyfres yn parhau fel sail i waith RhCM i fynd i'r afael ag anghenion mwyaf blaenllaw menywod yng Nghymru.

Sarah Rees & Monika Borkowska

(Co-Chairs, WEN Wales)





CYFLWYNIAD

Mae'n drist bod tlodi yng Nghymru ar i fyny. Dengys ffigurau diweddar fod nifer y bobl sy'n bywar lai na 60% o incwm cartref ar gyfartaledd wedi cynyddu o 22% i 23%.

Ar yr un pryd, mae tlodi yng ngweddill Prydain wedi gostwng. Rydym yn gwybod bod Cymru'n aml ar frig tablau Ewropeaidd i anghydraddoldeb, er enghraifft mae gennym y cyfran mwyaf o blant mewn tlodi difrifol, a dyna pham, ers 2000, rydym wedi derbyn £4 biliwn gan Gronfeydd Strwythurol Ewrop.

Roeddem yn awyddus i gasglu data ar dlodi yng Nghymru i ganfod pam, fel menywod, ein bod mewn mwy o berygl o dlodi na dynion. Rydym yn amlygu'r term 'trais economaidd' fel rheolaeth ariannol ac mae'n gyffredin i fenywod sy'n dioddef cam-drin yn y cartref.

Mae'r diwygiad lles eisoes wedi body n ddifrodol i fenywod yng Nghymru ac mae cyflwyno Credyd Cynhwysol yn 2015 o bryder mawr i'h aelodau. Mae llawer yn poeni y byddant yn colli sefydlogrwydd ariannol i'w hunain a'u plant.

Ein gobaith yw y gall y briffiad hwn gefnogi gwaith y Grŵp Trais yn Erbyn Menywod ymhellach. Mae'r grŵp yn cynnwys sefydliadau cynrychioladol ledled Cymru sydd wedi cyflawni llwyddiant mawr ynghyd â'r Bil Trais yn Erbyn Menywod a basiwyd yn ddiweddar.



TLODI MENYWOD

Fel arfer, mesurir tlodi fel incwm aelwyd o lai na 60% o'r cyfartaledd. Addasir incwm ar gyfer mathau o aelwydydd, er enghraifft, mae'r trothwy tlodi ar gyfer person sengl yn is na phâr â dau o blant. Gellir mesur tlodi cyn neu ar ôl ystyried costau tai – defnyddir ar ôl costau tai yng ngweddill y briffiad hwn.

Yng Nghymru, roedd 23% o'r boblogaeth yn byw mewn tlodi yn 2012/13.¹ Mae ystadegau ar dlodi yn ôl rhyw ar gael ar gyfer y DU yn unig – oherwydd bod gan Gymru lefelau cyffredinol yn uwch o dlodi, mae'n debygol iawn bod tlodi menywod yn uwch na chyfradd y DU.

Yn 2012/13 yn y DU, roedd menywod sy'n oedolion mor debygol o fyw mewn tlodi â dynion sy'n oedolion, gyda 19% o bob un yn byw mewn tlodi.

Fodd bynnag, mae'r tebygrwydd hwn yn bodoli'n unig oherwydd caiff tlodi ei fesur gan incwm aelwyd y tybir ei fod yn cael ei rannu'n gyfartal. Wrth edrych yn fanylach, gwelir bod menywod mewn mwy o berygl o fod mewn tlodi na dynion.

Mae menywod sengl mewn mwy o berygl o fod mewn tlodi na dynion sengl

Yn gyffredinol, mae gan fenywod yn gyffredinol berygl ychydig yn uwch o fod mewn tlodi na dynion sengl – dim ond menywod sengl di-waith sydd â chyfraddau is. Mae gan rieni sengl, y mae'r mwyafrif yn fenywod, gyfraddau uchel o dlodi o'i gymharu â phobl eraill gyda phedwar o bob deg yn byw'n is na'r trothwy tlodi.

Y Ganran sy'n Byw mewn Tlodi Incwm Cymharol, DU 2012/13

Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2014) Aelwydydd sy'n Is na'r Incwm Cyfartalog.

Nodyn: Mesurir tlodi incwm cymharol gan aelwydydd ag incwm o lai na 60% o'r cyfartaledd, ar gyfer y math hwnnw o aelwyd

	Menywod	Dynion
Pawb Oedran Gwaith	21	21
Sengl, yn gweithio	17	14
Sengl, yn ddi-waith	51	53
Sengl â phlant dibynnol	43	43
Yr holl bensiynwyr	14	12
Pâr	11	11
Sengl	17	15
Yr holl oedolion	19	19



Mae tlodi menywod o fewn aelwydydd yn gudd

Gall tlodi menywod gael ei guddio gan ffocws ystadegau swyddogol ar incwm aelwyd. Mae menywod mewn parau'n fwy tebygol o fynd heb eitemau hanfodol na dynion, gyda menywod mewn parau tlawd mewn perygl mwy o fynd heb hanfodion. Mae'r hanfodion hyn y mae menywod yn mynd hebddynt hefyd yn wahanol – mae menywod yn mynd heb ddillad, esgidiau a gwres yn ogystal â gweithgarwch cymdeithasol lle mae dynion yn mynd heb hobiau.

Efallai y gall menyw, felly, brofi tlodi hyd yn oed os yw ei hincwm yn uwch na'r trothwy tlodi. Mewn aelwydydd y mae eu hincwm yn is na'r trothwy tlodi, mae amddifadedd menywod yn ddwysach na'u partneriaid.

Mae menywod yn dibynnu ar u perthnasoedd i'w diogelu rhag tlodi

Mae llawer o fenywod yn dibynnu ar berthnasoedd i'w diogelu rhag tlodi. Ni does gan rai menywod incwm eu hunain o gwbl. Yng Nghymru yn 2012, nid oedd gan fwy na chwarter (27.5%) o fenywod mewn parau â phlant dibynnol swydd â thâl. ³ Mae'r ffigur hyd yn oed yn uwch i famau plant ifanc (0-3 oed) mewn parau, nid oedd gan draean (35.4%) swydd â thâl yn y DU yn 2013. ⁴ Oni bai fod ganddynt arian preifat, mae'r menywod hyn yn hollol ddibynol ar gyflog neu fudd-daliadau eu partneriaid.

I fenywod heb swydd â thâl, er bod nifer y menywod y mae eu hincwm personol yr un peth neu'n fwy na'u partneriaid yn cynyddu, ⁵ fel y mae cyfran incwm aelwydydd a gyfrannir gan fenywod, ⁶ mae mwyafrif y dynion sy'n gweithio, fodd bynnag, yn ennill llai na'u partneriaid. Er enghraifft, yn y DU, mae 69% o famau mewn parau â phlant dibynnol yn ennill llai na'u partneriaid ⁷

O ganlyniad, mae statws economaidd menywod yn sensitive iawn i'w statws perthynas. Body n rhiant sengl yw un o'r prif lwybrau i dlodi, ac mae ffurfio partneriaeth newydd yn un o'r prif ffyrdd allan o dlodi. ⁸

Mae menywod mewn mwy o berygl o dlodi na dynion dros oes

Mae'bn anodd mesur, ond mae'r cyfuniad o lai o amser yn gweithio, cyflogau llai a diffyg mynediad i incwm partner oherwydd marwolaeth partner, gwahani nu ysgariad, yn cyfrannu at fenywod yn meddu ar incwm is na dynion dros oes. ⁹

Mae tlodi'n cynyddu'r perygl o gam-drin yn y cartref

Mae tlodi menywod yn cynyddu'r perygl o brofi trais yn y cartref yn sylweddol. Mae oddeutu tair gwaith cymaint o fenywod ar yr incwm isaf (llai na £10,000 y flwyddyn) wedi profi cam-drin yn y cartref o'i gymharu â'r incwm aelwyd uchaf (£50,000 ac yn uwch) – 15.3% o'i gymharu â 4.2%. ¹⁰



TRAIS ECONOMAIDD

C Un partner yn rheoli gallu'r llall i gaffael, defnyddio neu gynnal adnoddau economaidd yw un o'r ymddygiadau a ddefnyddir gan droseddwr cam-drin yn y cartref.¹¹ Mae'r cam-drin ariannol hen neu drais economaidd wedi'i gydnabod fel trais gan Lywodraeth Cymru.¹²

Nid ydym yn gwybod nifer o achosion trais economaidd. Amcangyfrifir yn oddeutu 1 o bob 5 o barau yn y DU, mae'r partner gwrywaidd sy'n rheoli incwm yr aelwyd, gan roi lwfans bersonol neu arian cadw tŷ i'r fenyw, er nad yw hyn o reidrwydd yn cynnwys rheolaeth.¹³ Yn ôl y Cyngor ar Bopeth, mae naw o bob deg o'u cynghorwyr wedi mynd i'r afael ag achosion sy'n cynnwys trais ariannol dros y flwyddyn ddiwethaf.¹⁴ Yng Lloegr, canfu Cymorth i Fenywod fod 57.4% o fenywod mewn llochesi a 49.7% o fenywod yn defnyddio gwasanaethau nad ydynt yn lochesi wedi profi trais ariannol¹⁵ – mae'n debygol bod y cyfrannau'n debyg yng Nghymru.

Mae'r Cyngor ar Bopeth wedi nodi tri phrif fath o drais¹⁶:

Niwed ariannol uniongyrchol

Daw niwed uniongyrchol pan fo dioddefwr yn cael ei orfodi i dynnu credyd neu dderbyn atebolrwydd ariannol dros y troseddwr, neu mae ei eiddo'n cael ei ddwyn neu ei ddifrodi. Yn ôl arolwg gan y Cyngor ar Bopeth, daeth tri chwarter o'i gynghorwyr (73%) ar draws dioddefwyr yn tynnu credyd ar ran y troseddwr, gyda phedwar ym mhob deg (42%) o gynghorwyr hefyd yn dod ar draws troseddwr yn trosglwyddo atebolrwydd ariannol dros ddyledion i'r troseddwr.¹⁷

Rheolaeth ariannol

Daw reolaeth ariannol pan gyfyngir ar fynediad y dioddefwr i incwm, cynilion neu fudd-daliadau, neu yr effeithir ar gyfranogiad mewn addysg neu gyflogaeth neu fod y dioddefwr yn gorfod dweud am bopeth y mae'n gwario arian.

Mae rheoli incwm yn gyffredin. Yn ôl arolwg o fenywod yn defnyddio gwasanaethau cam-drin yn y cartref, roedd tua thri chwarter (74%) o fenywod a oedd wedi profi trais economaidd wedi dweud bod y person a oedd yn eu cam-drin yn rheoli eu mynediad i adnoddau economaidd.¹⁸ Roedd dan hanner (48%) y menywod a oedd yn hawlio budd-daliadau mewn perthynas dreisgar yn cael mynediad iddynt. Yn ôl arolwg arall o'r Cyngor ar Bopeth, gwelodd y cynghorwyr fod rheolaeth dros fynediad i incwm, cyfrifon banc a chynilion hefyd yn elfennau cyffredin o drais, yn ôl 57% o gynghorwyr.¹⁹

Mae bron hanner (49%) o fenywod sy'n defnyddio gwasanaethau cam-drin yn y cartref a oedd wedi profi trais economaidd wedi dweud bod y troseddwr wedi ymyrryd â'u haddysg a'u cyflogaeth.²⁰ O'r menywod hyn, dim ond traean o'r rheiny oedd wedi bod mewn addysg cyn profi cam-drin yn y cartref oedd wedi gallu parhau â'u dysgu ac roedd tua hanner (52%) a oedd wedi bod mewn cyflogaeth wedi parhau i weithio. Dim ond 56% o fenywod a oedd wedi gweithio wrth fod mewn perthynas dreisgar oedd â mynediad i'w cyflog.



Ecsbloetio adnoddau ar y cyd

Ceir ecsbloetio adnoddau ar y cyd pan fydd y troseddwr yn defnyddio'r holl adnoddau ar y cyd neu nid yw'n cyfrannu ar filiau ar y cyd. Yn ôl mwy na thri chwarter (77%) o gynghorwyr Cyngor ar Bopeth, roeddent wedi cael profiad o droseddwr ddim yn cyfrannu at filiau aelwyd a dywedodd 60% eu bod wedi profi troseddwr yn defnyddio'r holl adnoddau ar y cyd.²¹ Mae menywod sy'n cael eu cam-drin yn adrodd am lai o achosion – dim ond 12% o fenywod sy'n defnyddio gwasanaethau cam-drin yn y cartref a ddywedodd nad oedd y troseddwr yn fodlon cyfrannu at gostau biliau aelwyd a magu'r plant.²²

Diwygio lles

Disgwylir i newidiadau mewn budd-daliadau nawdd cymdeithasol i bobl oedran gwaith fwrw menywod yn galed. Mae Credyd Cynhwysol, y budd-dal newydd, sengl sy'n daladwy i aelwydydd cyflogedig ac anghyflogedig, yn cynnwys darpariaethau a allay gynyddu perygl menywod o drais ariannol:

- Telir Credyd Cynhwysol i unigolyn a enwebir mewn aelwyd – disgwylir mai'r dyn fydd yn ei dderbyn os yw pâr yn hawlio
- Telir Credyd Cynhwysol yn fisol a bydd yn cynnwys yr holl fudd-daliadau a dderbynnir gan yr aelwyd. Os caiff yr arian ei gamddefnyddio gan y person sy'n ei dderbyn, nid fydd gan fenywod a phlant unrhyw ffordd o gefnogi'u hunain

- Bydd derbyn Credyd Cynhwysol yn dibynnu ar holl aelodau'r aelwyd yn cydymffurfio â gofynion gwaith 0 gallai incwm menyw ddibynnu ar a yw ei phartner yn cydymffurfio e.e. drwy chwilio am swydd neu gynyddu oriau gwaith

Effaith trais ariannol

Mae gan drais ariannol effaith ddifrifol a thymor hir ar ddiodeffwyr. Mae menywod sydd wedi profi trais ariannol yn dweud eu bod yn teimlo'n ddibynol ac yn ddiameddiffyn i'w partneriaid, ac nid oeddent yn gallu gadael eu partneriaid oherwydd nid oedd ganddynt arian na'r hyder na'r profiad i'w reoli. Roedd gan drais ariannol hefyd effaith negyddol ar eu hiechyd emosiynol, gyda lleiafrif sylweddol (27%) yn dweud eu bod yn teimlo fel ru bod wedi'u heithrio oherwydd y trais ariannol.

Hyd yn oed ar ôl gorffen perthynas dreisgar, effeithiwyd ar rai menywod o hyd goherwydd dyledion, cofnod credyd gwael a phrofiad cyfyngedig o reoli cyllidebau aelwyd.





BETH NESAF?



Pam mae tlodi ar gynnydd yng Nghymru (a Gogledd Iwerddon) ond yn gostwng yng ngweddill y DU?



Sut gallwn gynyddu ymwybyddiaeth o'r broblem o drais economaidd fel math o gam-drin yn y cartref?



Beth gellir ei wneud i fynd i'r afael dibyniaeth menywod ar berthnasoedd i'w diogelu rhag tlodi?

¹ Adran Gwaith a Phensiynau (2014) Aelwydydd yn Is na'r Incwm Cyfartalog.

² Adelman, L., Middleton, S. and Ashworth, K. (1999) Dosraniad rhwng aelwydydd o dlodi ac eithriad cymdeithasol – tystiolaeth o'r arolwg PSE.

³ SYG (2013) Set Data Arolwg Poblogaeth Aelwyd.

⁴ SYG (2013) 'Menywod yn y Farchnad Lafur 2013' – set data lawn.

⁵ Ben-Galim, D. a Thompson, S. (2013) Who's breadwinning? Working Mothers and the New Face of Family Support, IPPR.

⁶ Brewer, M. a Wren-Lewis, L. (2011) Why did Britain's households get richer? Dadansoddi twf incwm aelwydydd y DU rhwng 1968 a 2008-09 (dadansoddiad IFS ar gyfer y Resolution Foundation) Nodyn Briffio'r IFS 125FS 2011.

⁷ Ben-Galim, D. a Thompson, S. (2013) Who's breadwinning? Working Mothers and the New Face of Family Support, IPPR.

⁸ Bennett, F. a Daly, M. (2014) op. cit.

⁹ Bennett, F. a Daly, M. (2014) op. cit.

¹⁰ SYG (2015) Violent Crime and Sexual Offences – Intimate Personal Violence and Serious Sexual Assault.

¹¹ Adams, A.E., Sullivan, C.M., Bybee, D. & Greeson, M. (2008) Development of the Scale of Economic Abuse. Violence Against Women. 14(5):563-588.

¹² Llywodraeth Cymru (2010) Yr hawl i fod yn ddiogel. T10.

¹³ Adelman, L., Middleton, S. and Ashworth, K. (1999) Intra-household distribution of poverty and social exclusion – evidence from the PSE survey.

¹⁴ Cyngor ar Bopeth (2014) Controlling Money, Controlling Lives – Financial Abuse in Britain.

¹⁵ Cymorth i Ferched (2014) Half of domestic violence victims experience financial abuse, Datganiad i'r wasg 1 Mai.

¹⁶ <http://www.womensaid.org.uk/domestic-violence-press-information.asp?itemid=3266&itemTitle=Half+of+domestic+violence+victim+experience+financial+abuse§ion=0001000100150001§ionTitle=Press+releases>

¹⁷ Cyngor ar Bopeth (2014) Controlling Money, Controlling Lives – Financial Abuse in Britain.

¹⁸ Cyngor ar Bopeth (2014) Controlling Money, Controlling Lives – Financial Abuse in Britain. T8.

¹⁹ Sharp, N. (2008) 'What's yours is mine' – the different forms of economic abuse and its impact on women and children experiencing domestic violence. Refuge.

²⁰ Cyngor ar Bopeth (2014) op. cit. T9.

²¹ Sharp, N. (2008) op. cit.

²² Cynfor ar Bopeth (2014) op. cit. T11.

²³ Sharp, N. (2008) op. cit.